

Elusen gofrestredig yw Brecon Festival Ballet. Sefydlwyd yn wreiddiol i lwyfannu cynhyrchiad newydd sbon o balé adnabyddus Tchaikovsky, "The Nutcracker" yn Theatr Brycheiniog ar gyfer Nadolig 2019. Dyma'r tro cyntaf i gynhychiad proffesiynol o'r balé eiconig yma gael ei lwyfannu yn ei gyfanrwydd yng Nghymru. Ond hefyd dyma'r tro cyntaf i Theatr Brycheiniog gael balé llawn gyda cherddorfa fyw !

Nutcracker, o bosib, yw'r balé mwyaf adnabyddus a phoblogaidd ohonyn nhw i gyd, gyda theatrau dros y byd i gyd dan eu sang adeg y Nadolig. Cyfuniad hudol sydd yn y balé hwn o gerddoriaeth swynol Tchaikovsky gyda'r holl ddarnau sy'n gyfarwydd i bawb, a'r stori hud a lledrith sy'n mynd â ni i barti Nadolig, ar daith trwy goedwig y Nadolig a gwledd o ddawnsfeydd yn Nheyrnas y Melysion, sef teyrnas tylwythen deg y Sugar Plum

Ein Cyfarwyddwr Artistig, Katy Sinnadurai, sydd y tu ôl i'r cynhyrchaid hwn a hithau'n ddawnsraig balé a choreograffydd dawnus a phrofiadol gyda'i chartref a'i chanolfan yn Aberhonddu. Dawnsyr proffesiynol sy'n dawnsio'r prif rannau gyda myfyrwyr balé a phobl leol yn llenwi rôlau'r plant a'r cymeriadau. Myfyrwyr King's International Ballet Academy sydd yn perfformio yn y corps de ballet a chôr lleol sy'n canu corws y Plu Eira. Cerddorfa Siambr Cymru sydd yn cyfeilio'r cynhyrchiad.

Ariennir y prosiect cyffrous ac uchelgeisiol hwn trwy gymorthdaliadau ac ymgyrchoedd codi arian. Gwerthwyd pob tocyn ar gyfer pob perfformiad yn 2019 ac, o ganlyniad, bydd Brecon Festival ballet yn

BRECON FESTIVAL BALLET

Registered Address: Theatr Brycheiniog, Canal Wharf, Brecon LD3 7EW
Charity Number 1194326

Ilwyfannu cynhyrchiad o Nutcracker yn Theatr Brycheiniog adeg y Nadolig bob blwyddyn o hyn ymlaen. Yn 2020 anrhydeddwyd Katy Sinnadurai gyda Medal Yr Ymerodraeth gan y Frenhines Elizabeth am ei hymroddiad a'i gwasanaeth ddiflino i addysgu, hyfforddi a pherfformio Dawns.

Bydd Brecon Festival Ballet YN dychwelyd gyda chynhyrchiad llawn o "Nutcracker" ym mis Rhagfyr 2022, dan arweiniad urddasol Cerddorfa Siambr Cymru . Y llynedd, er mwyn dilyn cyfarwyddyd Llywodraeth Cymru, ar ffurf gala balé oedd y cynhyrchiad cynnil dan y teitl "Danteithion Nadolig o'r Nutcracker", h.y. detholiad o uchafbwyntiau balé lledrithiol Tchaikovsky ynghyd â danteithion dawnsio eraill. Pleser o'r mwyaf oedd bod ar lwyfan unwaith eto gan ddifyrru a diddani ein cynulleidfaoedd !

BYDDWN YN YCHWANEGU AT Y WEFAN HON WRTH I'R PARATOI AT Y CYNHYRCHIAD FYND YN EI FLAEN FELLY NODWCH Y SAFLE ER MWYN CAEL Y WYBODAETH DDIWEDDARAF.